



cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR



Lwfansau i Fyfyrrwr Anabl i fyfyrwr amser llawn 2015/16



Mae Cyllid Myfyrwr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwr. Rydym yn darparu cyllid i fyfyrwr ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y Deyrnas Unedig.

Grantiau yw Lwfansau i Fyfyrrwr Anabl (DSAs) i helpu talu costau ychwanegol y gall fod angen i chi dalu oherwydd anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol fel dyslecsia neu ddyspracsia. Ni fydd angen ad-dalu DSAs ac mae modd iddynt helpu gydag:

- offer arbenigol y bydd angen i chi ei gael er mwyn astudio, fel meddalwedd gyfrifiadurol
- helpwyr anfeddygol, er enghraifft, rhywun i gymryd nodiadau neu i ddarllen
- costau ychwanegol i deithio i'ch prifysgol, eich coleg neu'ch lleoliad, o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd
- costau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch anabledd


Tri chyngor defnyddiol i helpu eich cais

Dyma bethau y gallwch wneud i sicrhau bod eich DSAs yn barod cyn gynted â phosibl:

- Dylech wneud cais cyn gynted ag y gallwch i drefnu cael eich cymorth ychwanegol yn ei le.
- Archebwch eich Asesiad Anghenion Astudio cyn gynted ag y byddwch yn cael ein llythyr sy'n dweud wrthy'ch i wneud hynny.
- Byddwn yn anfon llythyr Hawl i gael DSAs atoch, yna bydd modd i chi archebu'ch offer a/neu drefnu'ch cymorth.

Cyngor defnyddiol

Dylech osod hwn ar eich hysbysfwrdd neu'ch oergell



Gwneud cais am DSAs

Beth i'w wneud a phryd i'w wneud

1 Os ydych am wneud cais am DSAs a chyllid i fyfyrwyr arall – ymgeisiwch ar-lein nawr. Gallwch glicio ar y dewis i wneud cais am DSAs yn y prif gais. Yna, byddwn yn anfon ffurflen gais atoch (DSASL) i'w llenwi a'i dychwelyd atom.

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen hefyd trwy droi at: **www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk**

Os mai dim ond am DSAs ydych chi am wneud cais – dylech lawrlwytho ffurflen gais (DSA1F) o'n gwefan uchod. Dylech lenwi hon a'i dychwelyd atom.

Gall myfyrwyr sy'n astudio cwrs a ariannir gan GIG gael gwybodaeth bellach ynghylch sut i wneud cais am DSAs trwy droi at: **www.wales.nhs.uk/sitesplus/955/page/66809**

Os ydych yn gymwys i gael DSAs, byddwn yn dweud wrthy'ch i drefnu

CYNGOR DEFNYDDIOL

Dylech wneud cais am DSAs yn gynnar i sicrhau bod popeth fyddwch ei angen yn barod erbyn i'ch cwrs gychwyn.

2 Asesiad Anghenion Astudio er mwyn darganfod yr union offer a chymorth y byddwch ei angen.

Dylech archebu'ch Asesiad

Anghenion Astudio cyn gynted ag y

3 byddwch yn cael ein llythyr yn dweud wrthy'ch i drefnu un. I gael manylion eich Canolfan Asesu Anghenion gymeradwy agosaf, trowch at: **www.dsa-qag.org.uk/cy/**

Pan fyddwn yn cael canlyniadau eich Asesiad Anghenion Astudio,

4 byddwn yn anfon llythyr Hawl i gael DSAs atoch i roi gwybod i chi pa offer arbenigol neu gymorth arall y gall DSAs dalu amdanynt. Yn ogystal, byddwn yn rhoi cyfarwyddiadau i chi ynghylch archebu offer neu drefnu cymorth arall.

Am fwy o wybodaeth ac arweiniad, ewch i:

www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

f facebook/SFWales **🐦** twitter/SF_Wales

YouTube youtube.com/SFWfilm

cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR

student finance **wales**
cyllid myfyrwyr **cymru**

